Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol [Â rhybudd]

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

**Practis Orthodontig Abertawe**

2 Hydref 2014

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhydycar**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

**Ffôn**: 0300 062 8163
**Ebost**: agic@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan**: www.hiw.org.uk


ISBN digidol 978-1-4734-2757-0
© Hawlfraint y Goron 2014

# Cynnwys


1. Cyflwyniad ........ 2
2. Methodoleg ........ 2
3. Cyd-destun ........ 4
4. Crynodeb ........ 5

Canfyddiadau ........ 6

Profiad y Claf ........ 6

Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru ........ 8

Arweinyddiaeth a Rheolaeth ........ 10

Ansawdd yr Amgylchedd ........ 12

5. Camau nesaf ........ 13

Atodiad A ........ 14

## 1. Cyflwyniad

Gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gwblhau arolygiad â rhybudd i Ganolfan Orthodontig Abertawe yn 63, Heol Sketty, Uplands, Abertawe, SA2 0EN yn yr ardal sydd dan ofal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar 2 Hydref 2014

Yn ystod yr arolygiad ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Ansawdd yr amgylchedd.

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau gan AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod mor dda y mae practisau'n bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*[1].

Yn ystod yr arolygiad rydym yn adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Cyfweliadau ag aelodau staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis

---

[1] Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar y 1[af] o Ebrill, 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.
www.weds.wales.nhs.uk/opendoc/214438

- Archwilio offer a’r safle
- Gwybodaeth o fewn taflen wybodaeth a gwefan y practis.

Ar ddiwedd pob arolygiad rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y ddeintyddfa fel eu bod nhw'n derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd Iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu manylu, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A o'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Canolfan Orthodontig Abertawe yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal yr Uplands yn Abertawe. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a elwir Abertawe Bro Morgannwg. Ar adeg ein harolygiad, roedd y practis yn cyflogi tîm o staff a oedd yn cynnwys dau ddeintydd, dau therapydd, pedair nyrs, tri aelod staff y dderbynfa a rheolwr practis.

Darperir triniaeth orthodontig gan ddefnyddio ystod o systemau sythwr dannedd / fframiau dannedd.

## 4. Crynodeb

Roedd gan y practis reolwr profiadol sefydledig ac roeddem yn teimlo bod y practis yn cael ei redeg yn dda.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn, roeddent yn derbyn croeso a gwybodaeth ddigonol am y driniaeth roeddent yn ei dderbyn.

Er bod gwybodaeth am sut i nodi pryder neu gwyno ar gael, nid oedd wedi'i arddangos yn glir. Dylid gwneud trefniadau i wella argaeledd y wybodaeth hon i gleifion.

Dylai'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn llwyr adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon neu gwynion am ofal a thriniaeth GIG yng Nghymru. Dylai hyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu am eu hawliau dan y trefniadau hyn.

Cafodd y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd yn y practis hwn eu cynllunio a'u cyflenwi â'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles pobl.

Yn gyffredinol gall cleifion a staff fod yn sicr bod amgylchedd y practis yn ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei ddiogelu. Fodd bynnag, dylid adolygu'r trefniadau sy'n ymwneud â thrin gwastraff er mwyn osgoi ei drosglwyddo drwy'r ystafell aros lle y gallai greu perygl posibl i'r cleifion.

## Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn, roeddent yn derbyn croeso a gwybodaeth ddigonol am y driniaeth roeddent yn ei dderbyn.**

**Er bod gwybodaeth am sut i nodi pryder neu gwyno ar gael, nid oedd wedi'i arddangos yn glir. Dylid gwneud trefniadau i wella argaeledd y wybodaeth hon i gleifion.**

**Dylai'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno yn llwyr adlewyrchu'r trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon neu gwynion am ofal a thriniaeth GIG yng Nghymru. Dylai hyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu am eu hawliau dan y trefniadau hyn.**

Roedd tîm y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar a gwelsom eu bod yn gwrtais ac yn dangos parch at gleifion. Roedd yr ystafell aros a phob deintyddfa yn lân ac yn daclus. Arddangoswyd gwybodaeth hybu iechyd berthnasol a oedd yn hysbysu cleifion am sut i ofalu am iechyd y geg.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym eu bod yn casglu adborth wrth gleifion am eu gofal a'u triniaeth yn fisol, drwy arolwg cleifion. Gwnaethom edrych ar rai sylwadau a wnaed ac roedd y rhain yn dangos bod cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd gan y staff.

Gwnaethom drafod â phedwar person sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn ogystal â'r perthnasau oedd gyda nhw.  Roedd y bobl y bûm yn sgwrsio â nhw wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers rhwng un a thair blynedd. Dywedodd pawb y bûm yn trafod â nhw eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn a'u bod wedi derbyn croeso gan staff y practis.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaeth staff ymdrin â pherson oedd angen apwyntiad brys ar yr un diwrnod. Golygai hyn y gallai pobl fod yn hyderus pe bai anawsterau gyda'u triniaeth, bod system ar waith i ymdrin â hyn ac i sicrhau y byddent yn cael apwyntiad arall yn brydlon.

Yn gyffredinol, dywedodd cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i gael eu gweld. Dywedodd y staff wrthym os oedd y deintydd yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl ar glaf penodol, roeddent yn hysbysu’r bobl a oedd yn aros.

Roedd y practis yn darparu triniaeth breifat yn ogystal â thriniaeth GIG ac roedd gweithdrefn ar waith i gleifion nodi pryderon neu gwynion ynglŷn â'u gofal a'u triniaeth. Er bod y weithdrefn yn gyffredinol yn bodloni'r trefniadau a oedd yn

perthyn i ofal a thriniaeth breifat yn ogystal â'r GIG, nid oedd yn llwyr ystyried y trefniadau a osodwyd dan 'Gweithio i Wella'[2]. Golygai hyn nad oeddem yn gallu bod yn sicr bod cleifion yn cael eu hysbysu am eu hawliau dan y trefniadau hyn fel gallu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***Argymhelliad***

Dylai'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod ei weithdrefn gwyno yn nodi'n glir sut mae cleifion sy'n derbyn triniaeth GIG yn gallu mynegi eu pryderon dan 'Gweithio i Wella'.

Yn ogystal â hyn, tra bod gwybodaeth i gleifion ar sut y gallant nodi pryderon neu gwynion am eu gofal a'u triniaeth ar gael yn yr ystafell aros, nid oedd y wybodaeth hon wedi'i arddangos yn glir. Golygai hyn nad oedd gan bobl fynediad hawdd at wybodaeth ysgrifenedig ynglŷn â gwneud cwyn. Nid oedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r broses i nodi pryder neu gyflwyno cwyn.

Felly, dylai'r practis wneud trefniadau i wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r cleifion sy'n ymweld â'r practis.

***Argymhelliad***

**Dylai'r practis wneud trefniadau priodol i wella'r wybodaeth sy'n cael ei arddangos ar sut gall gleifion nodi pryderon neu gwynion am eu gofal a'u triniaeth.**

---

[2] 'Gweithio i Wella' yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer trin ac ymateb i bryderon am ofal a thriniaeth a ddarperir gan y GIG yng Nghymru

## *Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*

**Cafodd y gofal a'r driniaeth a ddarparwyd yn y practis hwn eu cynllunio a'u cyflenwi â'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles pobl.**

Dylai'r practis hwn adolygu'r trefniadau ar gyfer trin gwastraff i osgoi ei drosglwyddo i'r ystafell aros lle mae posibilrwydd y gallai greu perygl i'r cleifion.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pedwar o gleifion a chanfod eu bod yn gyffredinol yn cael eu rheoli'n dda iawn. Nid oedd cofnodion meddygol dau o'r cleifion wedi cael eu cydlofnodi/llofnodi gan y deintydd i gadarnhau ei fod wedi eu gweld. Er bod y ffurflenni cydsynio'n cynnwys enwau'r cleifion, nid oeddent yn cynnwys unrhyw fath arall o wybodaeth unigryw'r cleifion fel gwiriad diogelwch ychwanegol i gadarnhau bod y ffurflen yn perthyn i'r claf cywir. Rhannwyd hyn rhwng y deintydd perthnasol a'r rheolwr practis fel eu bod yn ymwybodol y gellid gwneud gwelliannau.

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennau gorfodol yn gynhwysfawr ac yn gyfredol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â gwiriadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw a hyfforddiant staff.

Roedd staff wedi derbyn hyfforddiant mewn adfywio cardio-pwlmonaidd ac roedd ganddynt fynediad at offer addas pe bai digwyddiad argyfyngus gyda chlaf yn y practis.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys wedi'u storio'n ddiogel ac roedd system addas ar waith i waredu ar gyffuriau a oedd wedi dod i ben ac i roi rhai newydd yn eu lle.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio'r offer a ddefnyddir yn y practis a chanfuom fod y rhain yn foddhaol. Cynhaliwyd cofnodion gorfodol ac roedd yr offer a ddefnyddiwyd i'w weld mewn cyflwr da. Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer glanhau cyn sterileiddio, sterileiddio a storio offer.

Cynhaliwyd archwiliadau o ran rheoli heintiau yn unol â'r *Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)*[3]*.* Roedd cyfleusterau golchi dwylo ac eitemau untro ar gael i leihau'r risg o groes-heintio.

---

[3]Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn rhoi canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a practisau deintyddol cymunedol.

Rydym yn argymell bod y practis yn cynnal asesiad o'r newidiadau sydd eu hangen i barhau gydag arfer orau. Bydd hyn yn dangos bod y practis yn ystyried canllawiau arfer orau newydd a sut y bydd yn gweithio tuag at fodloni'r rhain. Cytunodd rheolwr y practis i roi sylw i'r mater hwn.

***Argymhelliad***

Dylai'r arfer gynnal a chofnodi asesiadau o'r newidiadau sydd eu hangen er mwyn anelu tuag at arfer orau.

Dywedodd staff wrthym fod cytundebau ar waith er mwyn gwaredu ar wastraff peryglus ac roedd y ddogfennaeth a welsom yn cadarnhau hyn. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei wahanu i gynhwysyddion o wahanol liwiau er mwyn amlygu'r dull cywir o waredu arnynt ac roedd y rhain wedi'u storio'n ddiogel. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym fod gwastraff o'r fath yn cael ei gario drwy'r ystafell aros ac yna'n cael ei gasglu gan gerbyd gwaredu. Gallai hyn arwain at halogi'r ystafell aros, gan achosi perygl iechyd i gleifion. O ganlyniad, dylid gwneud trefniadau amgen i leihau'r risg o halogi'r ystafell aros a lleihau'r risg posibl i iechyd y cleifion.

***Argymhelliad***

Dylai'r practis gynnal trefniadau amgen priodol fel nad yw gwastraff peryglus yn cael ei gario drwy'r ystafell aros wrth iddo gael ei gasglu i'w waredu.

## *Arweinyddiaeth a Rheolaeth*

**Roedd gan y practis reolwr profiadol sefydledig ac roeddem yn teimlo bod y practis yn cael ei redeg yn dda.**

Roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd.

Roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei redeg yn llwyddiannus ac roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel. Fodd bynnag, roedd rhai polisïau yn ymestyn ledled y cwmni ac nid oeddent yn darparu manylion cyswllt perthnasol o ran arweinyddion / asiantaethau. Gallai hyn arwain at oedi wrth i staff chwilio am gyngor neu gefnogaeth briodol. Gwnaethom dynnu sylw'r rheolwr practis at hyn ac fe gytunodd i ychwanegu'r wybodaeth hon.

Roedd staff yn gallu cael mynediad at bolisïau'n electronig yn y practis ac yn cael eu hannog i wneud hynny er mwyn sicrhau bod y fersiwn ddiweddaraf ganddynt.

Roedd system addas ar waith i gasglu adborth rheolaidd wrth gleifion am eu gofal a'u triniaeth. Roedd yr adborth a welsom yn nodi fod y cleifion yn hapus iawn â'r gwasanaeth a ddarparwyd yn y practis.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael cefnogaeth dda gan y rheolwr practis a'i fod yn hawdd mynd ati gydag unrhyw faterion neu bryderon a allai fod ganddynt a oedd yn ymwneud â'r gwaith. Dywedodd staff wrthym eu bod yn mynychu cyfarfodydd staff unwaith y mis a gwnaethant drafod ystod o faterion a oedd yn cynnwys newidiadau arfaethedig i'r systemau neu i'r practis yn gyffredinol. Gwelsom gofnodion y cyfarfodydd hyn a oedd yn cadarnhau'r hyn a ddywedwyd gan y staff.

Roedd gan staff fynediad at hyfforddiant a chyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. Dywedodd yr holl staff wrthym eu bod wedi cael cwrs ymsefydlu trwyadl er mwyn iddynt gyflawni eu swyddogaethau. Dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis yn eu hatgoffa pryd roedd eu hyfforddiant gofynnol yn ddyledus a rhoddwyd negeseuon atgoffa yn adran y staff i'w cymell. Dywedodd un deintydd wrthym ei fod wedi derbyn cymorth clinigol arbenigol oherwydd eu bod yn newydd a gwnaeth staff clinigol gadarnhau eu bod yn cael cefnogaeth i gynnal eu cofrestriad proffesiynol. Golygai hyn y gallai cleifion fod yn hyderus bod gan y staff a oedd yn eu trin y sgiliau angenrheidiol a'r hyfforddiant cyfredol.

Gwnaeth gofnodion y staff y bûm yn edrych arnynt gadarnhau bod gan staff fynediad at ystod o gyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w rôl a gwnaethant dderbyn arfarniad blynyddol ynglŷn â'u gwaith, gan adnabod amcanion ac anghenion hyfforddi ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Roedd y llyfr damweiniau a ddefnyddiwyd yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Dywedodd y rheolwr practis wrthym pe bai digwyddiad yn codi, byddai'n cael ei archwilio a byddai gweithred yn cael ei rhoi ar waith er mwyn atal digwyddiad tebyg rhag digwydd eilwaith. Roedd enghraifft o hyn yn ymwneud ag ardal y ddesg yn y dderbynfa a oedd wedi peri i newidiadau gael eu gwneud er mwyn lleihau'r perygl o risg i staff a fyddai'n mynd at yr ardal hon.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau ac amserlenni gwaith cynnal a chadw.  Gwnaeth y rhain gadarnhau bod yr offer wedi'i archwilio yn unol â'r gofynion gorfodol.  Felly, gallai staff a chleifion fod yn hyderus bod systemau ar waith i sicrhau bod offer yn cael ei arolygu yn brydlon ac yn cael ei gynnal a'i gadw i sicrhau ei fod yn addas at y diben.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Yn gyffredinol, gallai cleifion fod yn hyderus bod amgylchedd y practis yn ddiogel a bod eu preifatrwydd yn cael ei warchod.**

Mae Canolfan Orthodontig Abertawe yn bractis sefydledig sydd wedi'i leoli yn ardal yr Uplands yn Abertawe. Roedd lleoedd parcio ar gael ar hyd y brif heol, ger y practis.

Roedd gan y practis dderbynfa, tair meddygfa a mannau aros ar y llawr daear. Gwnaeth ein harsylwadau nodi fod maint yr ystafelloedd aros yn briodol o ystyried nifer y meddygfeydd a'r cleifion a oedd yn mynychu. Roedd y mannau hyn yn lân, yn daclus, yn derbyn digon o olau ac wedi'u hawyru'n dda. Roedd enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion a oedd yn gweithio yn y ganolfan, ynghyd â rhif cysylltu 'y tu allan i oriau', yn cael eu harddangos yn eglur i hysbysu cleifion a fynychai i dderbyn triniaeth.

Roedd y cleifion a oedd ag anawsterau symudedd yn gallu cael mynediad at yr adeilad drwy ramp symudol a allai gael ei leoli yn y brif fynedfa. Dywedodd staff wrthym fod y dderbynfa yn holi cleifion a oedd ganddynt anawsterau symudedd wrth iddynt drefnu apwyntiad fel bod staff ar gael i'w helpu wrth iddynt fynychu eu hapwyntiad. Tra bod tai bach ar gael i'r cleifion eu defnyddio, roedd maint rhain yn ei wneud yn anodd i bobl sydd mewn cadeiriau olwyn gael mynediad atynt. Fodd bynnag, gwnaeth staff gadarnhau nad oedd hyn wedi achosi unrhyw broblemau i gleifion.

Mae gan y practis dair meddygfa ac ystafell pelydr-x ar wahân a oedd wedi'u lleoli ar y llawr daear. Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r rhain ac roeddent yn cynnwys offer perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch cleifion a staff.

Gwnaethom arsylwi bod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol. Roedd rhagofalon diogelwch ar waith i atal mynediad heb ei awdurdodi i ardaloedd na ddefnyddir gan gleifion. Roedd trefniadau priodol ar waith er mwyn storio papur a chofnodion electronig yn ddiogel.

Arddangoswyd taflenni gwybodaeth a phosteri iechyd perthnasol yn y mannau aros.

## 5. Camau nesaf

O ganlyniad i'r archwiliad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwelliannau at ddibenion Ansawdd Profiad y Claf. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwelliannau ddatgan yn eglur pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yng Nghanolfan Orthodontig Abertawe yn cael sylw, gan gynnwys graddfeydd amser.

Bydd y cynllun gwelliannau, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o’r broses barhaus o arolygu deintyddol.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

**Practis:** Canolfan Orthodontig Abertawe

**Dyddiad yr Arolygiad:** **2 Hydref 2014**

| Rhif Tudalen | Argymhelliad | Dull gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| 7 | Dylai'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod ei weithdrefn gwyno yn nodi'n glir sut mae cleifion sy'n derbyn triniaeth GIG yn gallu mynegi eu pryderon drwy 'Gweithio i Wella'. | Bellach mae'r poster priodol 'Gweithio i Wella' a thaflenni gwybodaeth Gweithio i Wella ar gael yn y Dderbynfa yn y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg. | | Cwblhawyd |
| 7 | Dylai'r practis wneud trefniadau priodol i wella'r wybodaeth sy'n cael ei arddangos ar sut gall gleifion nodi pryderon neu gwynion am eu gofal a'u triniaeth. | Posteri 'Gweithio i Wella' yn cael eu harddangos mewn lleoliadau amlwg yn y mannau aros yn ogystal ag yn y dderbynfa. | | Cwblhawyd |

| Rhif Tudalen | Argymhelliad | Dull gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru** | | | |
| 9 | Dylai'r practis gynnal a chofnodi asesiad o newidiadau sydd eu hangen er mwyn anelu at arfer orau. | Asesiad o'r newidiadau a wnaed ac a gofnodwyd.<br>I'w trafod â'r Rheolwr Ardal [Rheolwr Ardal] yn ystod y cyfarfod nesaf. | | 3 Tachwedd 2014<br>25 Tachwedd 2014 |
| 9 | Dylai'r practis wneud trefniadau priodol amgen fel nad yw gwastraff peryglus yn cael ei gario drwy'r ystafell aros pan gaiff ei gasglu i'w waredu. | Bellach mae gan y practis bolisi ysgrifenedig sy'n nodi y dylai gwastraff peryglus gael ei gario o'r adeilad er mwyn gwaredu arno drwy allanfa'r drws ochr. Rhoddwyd y wybodaeth hon hefyd i staff yn ystod cyfarfod staff. | | Cwblhawyd |
| | **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | | | |
| | Dim | | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| | Dim | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

## Enw (wedi'i brintio): Mrs Kathy Williams

**Teitl:** **Rheolwr Practis**

**Llofnod:** **[Cyflwynwyd yn electronig]**

**Dyddiad:** **7/11/14**